



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol 2020/21

Hyrwyddo trawsnewid a
llywodraethu digidol llywodraeth leol
yng Nghymru

#DigidolLleolCymru

Gorffennaf 2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cymhwysedd	2
Y broses ymgeisio	3
Ffrydiau Cyllido	3
Rhagor o wybodaeth	4
Atodiad A – Disgrifiad o’r Camau Cyflawni a Gyllidir	5
Atodiad B - Meini Prawf Asesu’r Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol	8

Cyflwyniad

1. Cafodd y Rhaglen Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol ei sefydlu yn 2018 er mwyn canfod a chynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn goruchwylio'r gwaith trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol yn strategol ac mae'n datblygu portffolio o brosiectau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gefnogi rhagor o gydweithio rhwng awdurdodau lleol.
2. Nod cyllid y rhaglen ydy:
 - a. cefnogi awdurdodau lleol i ganfod ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ddatblygu trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol yng Nghymru
 - b. manteisio ar gyfleoedd i gefnogi mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru
 - c. cefnogi awdurdodau lleol i ddatrys problemau ar y cyd unwaith yn hytrach na gwneud hynny droeon fesul un
 - d. cefnogi gwaith sy'n dwyn budd i bob awdurdod lleol, yn hytrach na gwaith y byddai cynghorau unigol yn ei wneud fel rhan o'u rhaglen newid
 - e. cyllido prosiectau bach, iteraidd sy'n ein helpu'n well i ddeall sut mae symud at safonau a gwasanaethau cyffredin mewn awdurdodau lleol

Cymhwysedd

3. Mae awdurdodau lleol Cymru yn gymwys i gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiect(au) arfaethedig. Yn ystod y cam ymgeisio, bydd angen i bob cais ddangos mewnbwn gan o leiaf 3 awdurdod lleol yng Nghymru.
4. Ni chaiff sefydliadau preifat na thrydydd sector gyflwyno cynnig; fodd bynnag, mae'n bosibl i'r cynigion llwyddiannus gomisiynu cwmni preifat i helpu i gyflawni'r prosiect.
5. Er nad ydy Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar y cyllid yn uniongyrchol, bydd ceisiadau gan awdurdodau lleol sydd â chefnogaeth gan adrannau Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried.

Y broses ymgeisio

6. Mae dau gam yn y broses o gael gafael ar y Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol.

Cam 1 - Bydd awdurdodau lleol yn cael eu gwahodd i gyflwyno crynodeb lefel uchel o brosiect arfaethedig.

Cam 2 – Bydd awdurdodau lleol yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn a fydd wedyn yn cael ei asesu am gyllid.

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ddangos yn drwyadl eu bod yn barod i ddiwallu meini prawf asesu'r gronfa, fel y'u hamlinellir yn [Atodiad B](#), a'u bod wedi cynnull grŵp cadarn o awdurdodau lleol partner sy'n awyddus i gydweithio ar y prosiect arfaethedig.

7. Rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sy'n dangos y manteision mwyaf, gan gynnwys y rheini sy'n arbed arian ac adnoddau ac sy'n golygu gwelliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ond nid dim ond y rheini.
8. Caiff awdurdodau lleol arweiniol gyflwyno hyd at 3 chais ond dim ond un fesul prosiect.
9. Bydd angen i geisiadau ddangos:
 - a. budd i wasanaethau cyhoeddus lleol yn eu cyfanrwydd
 - b. y gallu i dyfu yn unol â'r anghenion drwy ddyllunio neu ddatblygu datrysiadau gan 3 awdurdod lleol neu ragor er mwyn diwallu anghenion awdurdodau lleol Cymru
 - c. nod i gyflawni cynnyrch sy'n helpu eraill i ddefnyddio neu i adeiladu ar waith y prosiect
 - d. ymrwymiad i sicrhau bod holl adnoddau ac allbynnau'r prosiect yn agored ac ar gael i eraill eu hailddefnyddio
 - e. unrhyw adnoddau ychwanegol - ariannol neu ddynol - a fydd yn cael eu cyfrannu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus yn unol â'r amserlen. Mae hyn yn gallu bod yn gyfraniadau o fath arall gan gynnwys amser staff, a gallant ddod o gasgliad o bartïon i'r cais

Ffrydiau Cyllido

10. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu gwahodd i wneud cais am gyllid i ddatblygu prosiectau yng ngham cychwynol cwmpasu a diffinio maes y broblem ([Cam Darganfod](#)), neu i wneud cais i fynd â phrosiect sydd eisoes ar waith ymlaen i gam nesaf aeddfedrwydd/cam creu prototeip cynnar ([Cam Alpha](#)), neu brosiectau i fynd â'ch syniad gorau o'r cam Alpha a dechrau ei adeiladu go iawn ([Cam Beta](#)).
11. Mae rhagor o fanylion am y camau datblygu a disgwyliadau prosiectau ar gael yn [Atodiad A](#) y ddogfen hon.

12. Pennir uchafswm y cyllid sydd ar gael yn ôl graddfa, maint a chyfnod y prosiect yr ydych yn gwneud cais amdano:

- a) Prosiectau cam Darganfod – hyd at £80,000
- b) Prosiectau cam Alpha – hyd at £150,000
- c) Prosiectau cam Beta – hyd at £250,000

13. Bydd yr arian yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau, gan gyflawni'r holl amodau a nodir yn y cytundeb ffurfiol ar gyfer dyfarnu'r grant.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Digidol Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru ar LlywLeol.Digidol@llyw.cymru.

Mae'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol ar gael ar <https://llyw.cymru/cronfa-trawsnewid-digidol-llywodraeth-leol>.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld Cymru yn genedl ddigidol. Mae wedi ymrwymo i greu gwasanaethau digidol arloesol ac ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr ac yn seiliedig ar ddefnydd da o ddata.

Cyflawni Cymru Ddigidol

[Cyflawni Cymru Ddigidol](#) yw agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu dyfodol digidol disgleiriach i bawb yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar themâu cynhwysiant; sgiliau; yr economi; gwasanaethau cyhoeddus; a seilwaith.

Digidol yn Gyntaf

[Digidol yn Gyntaf](#) yw ymateb Llywodraeth Cymru i elfen gwasanaethau cyhoeddus Cyflawni Cymru Ddigidol. Mae'n dangos sut y dylid canolbwyntio ar bobl wrth ddatblygu a llunio gwasanaethau cyhoeddus er mwyn creu gwasanaethau rhagorol ar-lein.

Strategaeth TGCh ar gyfer y Sector Cyhoeddus

Mae'r [Strategaeth TGCh ar gyfer y Sector Cyhoeddus](#) yn amlinellu'r strategaeth dechnegol, y seilwaith a'r safonau sydd eu hangen i weithredu Cyflawni Cymru Ddigidol.

Atodiad A – Disgrifiad o'r Camau Cyflawni a Gyllidir

Cyllid darganfod (archwilio'r broblem) a'r canlyniadau a geisir

Nod prosiectau darganfod ydy deall rhagor ar broblem y mae ymgeiswyr yn meddwl sy'n cael ei rhannu gan nifer o awdurdodau lleol. Dylai'r prosiect darganfod geisio deall y broblem hon yn well, faint mae'n ei gostio i drethdalwyr a'i baich ar bobl. Ar ddiwedd prosiect darganfod, dylai'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall y broblem dan sylw yn iawn a bod ganddynt amrywiaeth o gynigion er mwyn mynd â'r prosiect rhagddo.

Mae arnom eisiau gweld ceisiadau darganfod sy'n ceisio ehangu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan un awdurdod lleol ac y byddai modd ei ledaenu ar draws nifer o awdurdodau lleol. Dyfernir cyllid er mwyn cymell awdurdodau lleol i gydweithio i greu datrysiadau cyffredin. Er enghraifft gallai'r math hwn o waith darganfod olygu edrych ar ddilysu pa mor ymarferol ydy ymchwil defnyddwyr sydd eisoes ar gael ar draws nifer o awdurdodau lleol a dod â phartneriaid cymuned fuddiant ynghyd i gydweithio ar ddatrysiad i broblem gyffredin o ran cyflwyno gwasanaethau.

Byddwn yn cynnig hyd at £80,000 ar gyfer ymgeiswyr sydd am gyflawni prosiect darganfod ac sy'n ymrwymo i ddarparu:

- a. achos busnes neu achos budd sy'n egluro cost y broblem a'r arbedion posibl - i'r cynghorau dan sylw ac i'r genedl
- b. adroddiad ymchwil defnyddwyr, yn cyfiawnhau casgliadau'r prosiect
- c. casgliad sy'n cynnig pa gynnyrch neu wasanaeth y dylech ei ddatblygu mewn prosiect 'Alpha i ddatrys y broblem(au) a nodwyd gennych yn eich gwaith ymchwil. Gallai hyn gynnwys drafft cyntaf 'map taith defnyddiwr'. Os oedd y broblem yn wahanol neu'n fwy cymhleth na'r hyn a ddychmygwyd, dylai'r casgliad amlinellu'r angen am ragor o waith mewn prosiect darganfod newydd, neu argymhelliad na fydd y gwaith hwn yn parhau
- d. Pan fo'n briodol, cais am gyllid ychwanegol gan y Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol er mwyn datblygu'r prosiect ymhellach drwy ragor o waith darganfod neu waith datblygu Alpha

Dylid gallu cyhoeddi'r holl allbynnau a dylid eu dylunio i fod yn hawdd eu darllen ac yn hygyrch.

Cyllid Alpha (dewisiadau profi gyda hypothesis) a'r canlyniadau a geisir

Nod prosiectau Alpha ydy adeiladu a phrofi rhywbeth yr ydym yn siŵr bod angen amdano. Rydym yn gwybod bod grwpiau o gynghorau a gwasanaethau a rennir ar draws y wlad wedi bod yn llunio datrysiadau gwych i broblemau cyffredin, ond efallai nad oedd ganddynt yr adnoddau i ddilysu eu hymchwil defnyddwyr ymhellach, profi eu cynnyrch gyda rhagor o sefydliadau a chofnodi'r gwaith i eraill ei ddefnyddio.

Byddwn yn ystyried 2 fath o brosiect Alpha:

- a. creu asedau mae modd eu hailddefnyddio (er enghraifft patrwm y gellir ei rannu) ar gyfer datrysiad sydd wedi datrys problem gwasanaeth leol yn effeithiol iawn mewn un ardal leol. Bydd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar brofi tybiaethau a dyluniadau'r datrysiad presennol gyda defnyddwyr eraill, a naill ai creu arweinlyfr sy'n golygu ei bod hi'n hawdd i eraill ei fabwysiadu a/neu ddod â thîm cydweithredol ymroddedig ynghyd er mwyn datblygu'r datrysiad ymhellach.
- b. prosiectau sydd wedi cynhyrchu'r allbynnau darganfod a restrir uchod. Ar ddiwedd prosiect Alpha, bydd ymgeiswyr yn gallu rhannu fersiynau demo sydd wedi cael eu profi gan ddefnyddwyr sy'n profi eu bod wedi dylunio datrysiad gwych i'r broblem gyffredin. Bydd hyn yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer unrhyw gais am gyllid pellach i weithredu.

Byddwn yn cynnig hyd at £150,000 ar gyfer ymgeiswyr sydd am gyflawni prosiect Alpha ac sy'n ymrwmo i ddarparu:

- a. Achos busnes neu achos budd sy'n egluro cost y broblem a'r arbedion posibl y gellid eu cyflawni drwy ddefnyddio'r datrysiad rydych chi wedi'i ddylunio – i'r cynghorau dan sylw ac os byddai'n cael ei gyflwyno'n genedlaethol.
- b. Adroddiad ymchwil defnyddwyr wedi'i ddiweddarau, sy'n cyfiawnhau pam mae'r cynnyrch wedi'i ddylunio fel y mae.
- c. Prototeip hygyrch sy'n dangos i bobl eraill sut mae ei weithredu. Gallai hyn fod ar ffurf demo profiad defnyddiwr, cyfres o gyfarwyddiadau, dyluniad, canllawiau, safon data, cod agored neu ddatrysiad.
- d. Casgliad sy'n cynnig pa gynnyrch neu wasanaeth y dylech ei ddatblygu mewn prosiect 'Beta'. Gallai hyn gynnwys 'map taith defnyddiwr' neu ddrafft cyntaf prototeip. Os oedd y broblem yn wahanol neu'n fwy cymhleth na'r hyn a ddychmygwyd, dylai'r casgliad amlinellu'r angen am ragor o waith mewn prosiect darganfod neu Alpha newydd, neu argymhelliad na fydd y gwaith hwn yn parhau.
- e. Pan fo'n briodol, cais am gyllid ychwanegol gan y Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol er mwyn datblygu'r prosiect drwy ragor o waith darganfod neu waith datblygu Alpha neu Beta.

Dylid gallu cyhoeddi'r holl allbynnau a dylid eu dylunio mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn hawdd eu darllen, yn hygyrch ac, os oes prototeip, ei fod ar gael i eraill gael gafael arno a rhyngweithio ag ef.

Cyllid Beta (adeiladu a mireinio dewisiadau) a'r canlyniadau a geisir

Mae prosiectau Beta yn golygu mynd â'r syniad gorau a ddaeth o'ch cam Alpha ar sail tystiolaeth a dechrau ei adeiladu go iawn. Mae hefyd yn golygu meddwl am sut bydd eich gwasanaeth yn integreiddio â'r gwasanaethau presennol (neu'n dechrau eu disodli) ac yn paratoi ar gyfer ei drosglwyddo i fod yn fyw.

Bydd y cam Beta hefyd yn gofyn i'r rheini sy'n derbyn arian o'r gronfa ddatblygu cynllun clir ynghylch sut y maent yn bwriadu cyflwyno eu cynnyrch yn ehangach ar draws y sector, er mwyn i awdurdodau lleol eraill allu defnyddio allbynnau'r prosiect i ddatrys eu problemau cyffredin. Gallai hyn amrywio o wneud y cod a phatrwm dyluniad y gwasanaeth yn god agored gyda chanllawiau manwl ynghylch sut mae gweithredu'r gwasanaethau i lunio cynigion ar gyfer datrysiad meddalwedd aml-deniant fel Gwasanaeth (SaaS).

Dylech chi strwythuro eich cam Beta er mwyn i chi allu cyflwyno'r gwasanaeth i ddefnyddwyr go iawn - ar yr un pryd â lleihau'r risg a chynyddu'r potensial i ddsygu ac i iteru'r gwasanaeth. Gwnewch yn siŵr bod gan dîm y prosiect ddigon o gapasiti i gynnal y dysgu a'r iteru hynny drwy gydol y cam Beta ac wedyn.

Byddwn yn cynnig hyd at £250,000 ar gyfer ymgeiswyr sydd am gyflawni prosiect Beta ac sy'n ymrwmo i ddarparu:

- a. Achos busnes neu achos budd sy'n egluro cost y broblem a'r arbedion posibl y gellid eu cyflawni drwy ddefnyddio'r datrysiad rydych chi wedi'i ddatblygu – i'r cynghorau dan sylw ac os byddai'n cael ei gyflwyno'n genedlaethol.
- b. Adroddiad ymchwil defnyddwyr wedi'i ddiweddarau, sy'n cyfiawnhau pam mae'r cynnyrch neu'r gwasanaeth wedi'i ddylunio fel y mae.
- c. Cynnyrch neu wasanaeth hygyrch gyda thystiolaeth o brofion defnyddiwr iteraidd y gellid ei ddefnyddio ar draws nifer o awdurdodau lleol
- d. Canllawiau ar sut gallai awdurdodau lleol eraill gael gafael ar eich cynnyrch neu wasanaeth neu ei roi ar waith; gallai hyn fod ar ffurf cyfres o gyfarwyddiadau, patrwm dylunio, canllawiau, safon data, cod agored neu ddatrysiad.
- e. Casgliad sy'n cynnig pa gynnyrch neu wasanaeth dylid ei ddatblygu mewn prosiect 'byw', gan gynnwys tystiolaeth am yr ystyriaethau technegol, gweithredol a masnachol sy'n cefnogi'r broses o ehangu/ailldefnyddio.
- f. Pan fo'n briodol, cais am gyllid ychwanegol gan y Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol er mwyn datblygu'r prosiect

Dylid gallu cyhoeddi'r holl allbynnau a dylid eu dylunio mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn hawdd eu darllen ac, mewn achos Beta, dylai fod yn gweithio ac ar gael ar gyfer demo neu ei brofi.

Atodiad B - Meini Prawf Asesu'r Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol

Byddwn yn asesu ceisiadau ar y sail ganlynol:

1. Datrys problemau cyffredin

Dylai'r broblem fod yn berthnasol i nifer o awdurdodau. Dylai'r broblem hefyd fod yn briodol yng nghyswllt cam y prosiect, yr amser sydd ar gael, y risgiau a nodwyd ac unrhyw waith cysylltiedig arall yn y sector.

Dylai'r broblem a ddiffinnir ddangos dealltwriaeth o sut mae'r farchnad, yr offer a'r cynnyrch presennol yn rhoi sylw i anghenion defnyddwyr yng nghyd-destun eich prosiect.

2. Canolbwyntio ar ddefnyddwyr a'u cynnwys

Dylai'r broblem ddatrys problem ar gyfer defnyddiwr. Dangos y potensial ar gyfer gwelliannau i brofiad defnyddwyr gwasanaeth a/neu weithredwyr y gwasanaeth neu dystiolaeth o hynny, drwy dystiolaeth o ymchwil a phrofion ymysg defnyddwyr.

3. Y tîm iawn ac agwedd at gydweithio

Dylai fod y tîm arfaethedig yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol ar gyfer cam y prosiect. Dylai'r tîm ystyried sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig pan allent fod ar wasgar yn ddaearyddol. Dylent hefyd ystyried llywodraethu a sut byddant yn sicrhau ymgysylltiad gan uwch randdeiliaid ac arbenigwyr pwnc.

4. Y cynllun

Dylai fod gan y prosiect gynllun priodol ar waith ar gyfer y prosiect, gan ystyried yr egwyddorion ystwyth a'r gwaith o unrhyw gamau blaenorol yn y prosiect.

Dylai hyn gynnwys y fethodoleg a'r adnoddau ariannol a dynol, gan roi dadansoddiad clir o sut bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau eraill yn cael eu gwario.

5. Rhannu'r dysgu a'r allbynnau

Dylai fod gan y prosiect gynllun ar gyfer sut bydd yn rhannu'r cynnydd, y dysgu a'r cynnyrch â rhanddeiliaid a'r sector er mwyn helpu i feithrin ymgysylltiad a dealltwriaeth ehangach, er mwyn pennu pa mor debygol ydy mabwysiadu a chyflwyno'r datrysiadau arfaethedig yn ehangach.

Dylid hefyd ystyried sut gall pobl eraill ailddefnyddio'r dysgu a'r cynnyrch a chyfrannu atynt ar ôl diwedd y prosiect.

6. Lefel bosibl yr arbedion i'r sector

Mae hyn yn gynnwys y manteision cymdeithasol ac ariannol posibl, gan gynnwys rhagamcanu'r elw ar y buddsoddiad wrth ehangu'r gwaith ar draws y bartneriaeth gydweithredol ac yn genedlaethol.

Dylai'r manylion a'r hyder yn y dystiolaeth o'r manteision hyn gynyddu wrth i'r prosiect symud ymlaen drwy gamau ystwyth datblygu.